

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w
Archwilio gan y Cyhoedd
2015 - 2030

Papur Cefndir 5
Gwastraff

Medi 2019

Contents

1. Cyflwyniad	2
2. Cyd-destun y Polisi	2
3. Y Cyd-destun Lleol	4
4. Baseline Llinell sylfaen	5
5. Provision and need Darpariaeth ac Angen	7
6. Review of UDP Policies Adolygiad o bolisiau CDU	8
7. Preferred Strategy Y Strategaeth a Ffefrir	10
8. Polisiau Gwastraff y CDLI	10

Atodiadau

Atodiad 1: Cyfleusterau Gwastraff a Ganiateir yn Sir y Fflint	13
Atodiad 2: Gwastraff a Reolir gan Gyfleusterau Gwastraff yn Sir y Fflint 2017-18	17
Atodiad 3: Gwastraff a Waredir gan Gyfleusterau Gwastraff Sir y Fflint 2017-18	20
Atodiad 4: Gwastraff yr Awdurdod Lleol a Gesglir yng Ngogledd Cymru	21
Atodiad 5: Ceisiadau Cynllunio Gwastraff ers mabwysiadu'r CDU	22
Atodiad 6: Aseiad PE1 Safleoedd er ystyriaeth ar gyfer defnyddiau	27

gwastraff EN21

Atodiad 7: Aseiad PE2 Safleoedd er ystyriaeth ar gyfer defnyddiau
gwastraff EN21

29

Papur Cefndir: Gwastraff

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r papur cefndir hwn wedi cael ei baratoi i gefnogi datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2015-2030. Pwrpas y papur yw canfod y sail tystiolaeth o ran gwastraff yn y Sir ac egluro sut mae polisiâu gwastraff wedi cael eu datblygu. Ers mabwysiadu'r CDU mae newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae gwastraff yn cael ei reoli, y cyd-destun deddfwriaethol a fframwaith rheoleiddio, ac mae'r rhain oll angen cael eu hystyried wrth ddatblygu'r CDLI.

2. Cyd-destun y Polisi

2.1. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol perthnasol sydd angen cael ei ystyried wrth lunio'r CDLI. Ni fydd y Polisi Cenedlaethol yn cael ei ailadrodd yn y CDLI, fodd bynnag cyfeirir at y themâu allweddol sy'n codi o'r polisi cenedlaethol, ac eir i'r afael â materion sy'n benodol i'r Sir drwy bolisi lleol penodol os oes angen.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

2.2. Mae deddfwriaeth gynhwysfawr ar lefel Ewropeaidd o ran gwastraff, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer mathau amrywiol o wastraff. Y Gyfarwyddeb trosfwaol ar gyfer gwastraff yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff. Mae polisi Ewropeaidd yn parhau i newid ac mae'r ffocws erbyn hyn ar gyflawni Economi Gylchol. Mae deddfwriaeth ddomestig yn sicrhau, lle bynnag bosibl, bod deddfwriaeth Ewropeaidd yn cael ei bennu'n uniongyrchol yng Nghymru. Y ddeddfwriaeth berthnasol yw:

- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (2018): Sy'n nodi'r angen i bob Aelod-Wladwriaeth sefydlu cynlluniau rheoli gwastraff.
- Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi (1999): Yn nodi'r canlynol: Tri dosbarth tirlenwi; Amheryglus, Peryglus ac Anadweithiol; Targedau ar gyfer gostwng gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i dirlenwi; gwastraff na ddylid ei dderbyn gan safleoedd tirlenwi; cyfres o ofynion manwl o ran gweithrediad a rheolaeth safleoedd tirlenwi.
- Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol (2010): Wedi dod a nifer o gyfarwyddebau gwahanol ynghyd, gan gynnwys y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff. Yn nodi cyfyngiadau allyriadau ar gyfer amryw o weithfeydd gan gynnwys ffatrioedd llosgi gwastraff.
- Cyfarwyddeb Diwedd Bywyd Cerbyd (2000)
- Cyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (2013)
- Cyfarwyddeb Gwastraff Cloddio (2006)

Polisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad (2018)

2.3. Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 (PCC10) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Caiff ei gefnogi gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol.

Mae PCC10 yn nodi rôl y mae angen i'r system defnydd tir ei chwarae i hwyluso rheoli gwastraff cynaliadwy ac yn cydnabod y trawsnewidiad sy'n digwydd yn y diwydiant gwastraff. Ei nod yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol a hyrwyddo economi gylchol drwy ddewisiadau dylunio er mwyn atal gwastraff¹. Mae'r PCC10 yn datgan bod gan y system gynllunio rôl bwysig i chwarae i hwyluso rheoli gwastraff, drwy ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau².

Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014)

- 2.4. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn nodi'r prif egwyddorion y dylid eu cymhwyso wrth gynllunio ar gyfer gwastraff ac yn cynghori bod y PCC, TAN 21, CDLI, Tuag at Ddyfodol Diwastraff a Chynlluniau'r Sector yn creu'r cynllun rheoli gwastraff cyffredinol ar gyfer Cymru, yn unol â gofynion Cyfraith Ewrop. Mae TAN 21 yn nodi'r angen i sicrhau cynhwysedd gwaredu ac adfer digonol o wastraff trefol wrth osgoi gorddarparu. Mae TAN 21 hefyd yn nodi gofynion monitro rhanbarthol.

Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol: Tuag at Ddyfodol Diwastraff

- 2.5. Tuag at Ddyfodol Diwastraff yw strategaeth trosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff, gosod targedau ailgylchu, a chap ar Ynni o Wastraff a thirlenwi. Mae'r ddogfen yn cynnwys targedau tymor canolig hyd at 2024/25 a dyheadau hirdymor nes 2050. Prif nod y ddogfen yw sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy.

Cynllun y Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd

- 2.6. Mae Cynllun y Sector Casgliadau Isadeiledd a Marchnadoedd (CCIM) yn nodi'r angen i osgoi gorddarparu mathau penodol o gyfleusterau, gan gynnwys adfer a gwaredu. Mae'r CCIM yn rhagamcanu'r lefel o gynhwysedd gwaredu ac adfer o fewn rhanbarth cynllunio.

Cynllun y Sector Trefol

- 2.7. Mae Cynllun y Sector Trefol yn nodi'r camau gweithredu yng Nghymru i sicrhau bod gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r ddogfen yn nodi cyfres o gamau gweithredu i annog atal gwastraff, paratodau ar gyfer aildefnyddio ac ailgylchu ac yn darparu eglurhad pellach o ran capiau ar ynni o wastraff a thirlenwi.

Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel

¹ PCC10 Para 5.12 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

² PCC10 Para 5.13 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

- 2.8. Mae Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel, fel Cynllun y Sector Trefol, yn nodi'r camau gweithredu yng Nghymru i sicrhau bod gwastraff adeiladu a dymchwel yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy.

Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu Bwydydd, Gwasanaeth a Manwerthu

- 2.9. Mae Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu Bwydydd, Gwasanaeth a Manwerthu, fel Cynllun y Sector Trefol, yn nodi'r camau gweithredu yng Nghymru i sicrhau bod y gwastraff a gynhyrchir gan y sector hwn yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy drwy ganolbwyntio ar atal, ailgylchu dolen gaeedig, lefel uchel a threulio anaerobig o wastraff bwyd.

3. Y Cyd-destun Lleol

- 3.1. Mae nifer fawr o newidiadau wedi bod yn y diwydiant gwastraff a'r ffordd y caiff ei reoleiddio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu cyflwyno i annog rheolaeth gynaliadwy o wastraff, lleihau'r baich rheoleiddio os yw'n briodol gwneud hynny, er enghraifft Diwedd Gwastraff, ac i gynyddu rheoleiddio os oes achos cyfiawn i wneud hynny. Trafodir y newidiadau mwyaf arwyddocaol isod.
- 3.2. Daeth y gofyniad i gasglu gwastraff ar wahân i rym o'r 1 Ionawr 2015. Mae'r gofynion yn gymwys i wastraff o bob ffynhonnell, gan gynnwys gwastraff masnachol a gwastraff diwydiannol, ac yn golygu bod rhaid darparu casgliadau ar wahân ar gyfer papur, metel, plastig a gwydr, neu os yw casgliad yn gymysg, rhaid ei brosesu i safon briodol. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol i'r gofyniad i drin gwastraff cyn ei waredu fel gwastraff tirlenwi, a ddaeth i rym yn 2017.
- 3.3. Mae cyfraddau Treth Tirlenwi wedi cynyddu yn sylweddol ers mabwysiadu'r CDU. Y gyfradd yn 2012/13 oedd £64 fesul tunnell ar gyfer y gyfradd safonol a £2 fesul tunnell ar gyfer cyfradd is. Ar hyn o bryd mae Treth Gwarediadau Tirlenwi yn £91.35 fesul tunnell ar gyfer y gyfradd safonol a £2.80 ar gyfer cyfradd is. Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig yw £137 fesul tunnell. Mae'r dreth uchel ar gyfer gwaredu gwastraff gan safleoedd tirlenwi yn lleihau gallu safleoedd tirlenwi i gystadlu gyda mathau eraill o reoli gwastraff, lle nad yw'r dreth yn gymwys. Fodd bynnag, mae'n cynorthwyo i wthio gwastraff i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

- 3.4. Mae estyniad i gyfleusterau presennol a datblygiad cyfleusterau newydd wedi dylanwadu'n fawr ar y ffordd caiff gwastraff ei reoli, ac ymhle. Mae Awdurdodau Lleol wedi cael ysgogiad ariannol i gaffael lleoedd dynodedig ar gyfer rheoli gwastraff bwyd a gwastraff gweddillol. Mae nifer o gyfleusterau wedi cael eu datblygu ar draws Cymru mewn ymateb i hyn, gan gynnwys Parc Adfer a'r cyfleuster treulio anaerobig yn Rhuallt, Sir Ddinbych, sy'n uniongyrchol berthnasol i Sir y Fflint. Mae'r ddau gyfleuster wedi cael eu caffael i reoli gwastraff a gesglir gan Gyngor Sir y Fflint. Mae gan y Parc Adfer ganiatâd i reoli 200,000 tonnell o wastraff gweddillol bob blwyddyn. Yno hefyd mae cynhwysedd i reoli gwastraff masnachol a diwydiannol, er bod y swm y gellir ei reoli yn dibynnu ar ofynion yr Awdurdodau Partner. Gall ddatblygiad cyfleusterau o'r fath effeithio ar gwmnïau rheoli gwastraff masnachol sy'n dibynnu ar gontractau'r awdurdod lleol. Oherwydd Parc Adfer a'r cyfleuster treulio anaerobig, nid oes angen dynodedig ar gyfer isadeiledd adfer neu waredu pellach o fewn y Sir. Mae gan y Parc Adfer gynhwysedd i dderbyn gwastraff trydydd parti ac mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau ac yn y broses o gael ei weithredu ar gyfer safle tirlenwi yn Chwarel Parry. Felly, nid oes angen dynodedig i ddarparu dyraniadau strategol ar gyfer rheoli gwastraff o fewn y CDLI.
- 3.5. O ganlyniad i leihau cyfaint y gwastraff sy'n cael ei adael mewn safleoedd tirlenwi, mae hyfywedd economaidd tirlenwi wedi cael ei effeithio. Mae nifer o safleoedd gwaredu wedi cau yng Nghymru cyn eu cwblhau, oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu o'i gymharu â'r refeniw a gynhyrchir. Mae gweddill y safleoedd tirlenwi yn rhanbarth Gogledd Cymru yn cael eu gweithredu gan gwmnïau masnachol a all wneud penderfyniadau gweithredu tebyg. Byddai hyn yn golygu na fydd digon o gynhwysedd yn y rhanbarth, a byddai'n ofynnol dan y fframwaith polisi i ganfod safle/oedd ychwanegol.
- Yn y pen draw, mae hyn yn fater i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag o.

4. Llinell sylfaen


Cyflwyniad

- 4.1. Mae data gwastraff yn cael ei gasglu a'i ledaenu yn bennaf ar sail lle gafodd ei gynhyrchu. Mae gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu data gwastraff i Lywodraeth Cymru sy'n arwain at set o ddata cynhwysfawr ar gyfer y gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol. Mae gwastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill yn cael ei ddarparu'n gyffredinol gan ddefnyddio arolygon achlysurol. Mae'r data a gesglir gan ddefnyddio ffurflenni gwastraff a ddarperir i Gyfoeth Naturiol Cymru yn llai cynhwysfawr, a dylid ei ddefnyddio â gofal oherwydd y ffordd caiff ei gasglu.

Gwastraff a Gesglir gan yr Awdurdodau Lleol

4.2. Nid yw gwastraff yn Sir y Fflint wedi newid yn sylweddol ers 2008/09, gyda mân amrywiadau a gostyngiad cyffredinol erbyn 2018/19. Mae Cymru gyfan wedi profi gostyngiad cyffredinol mewn gwastraff ers 2004, gweler Ffigur 1 isod, yn erbyn cefndir o gynnydd mewn nifer o dai a phoblogaeth. Cafodd y CDU ei gyhoeddi mewn cyfnod lle disgwylwyd i gasgliadau gwastraff yr awdurdod lleol gynyddu. Er enghraifft, rhagwelodd y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol y byddai gwastraff a gesglir gan yr Awdurdod Lleol yn 718,734 o dunelli yn 2013/14³ o'i gymharu â'r gwastraff gwirioneddol a oedd yn 430,300 tunnell, gweler Tabl 1 isod.

Ffigur 1: Gwastraff a gesglir gan yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru



Ffynhonnell: Llif Data Gwastraff

Tabl1: Gwastraff a Gesglir gan yr Awdurdodau Lleol: Gwastraff yn Sir y Fflint a Gogledd Cymru

Ardal	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Sir y Fflint	87,900	87,700	88,300	86,900	88,100	89,900	84,500
Gogledd Cymru	461,700	446,900	439,700	431,200	432,400	430,300	419,600
	2015/16	2016/17	2017/18				
	85,456	86,256	82,718				
	422,551	428,000	407,743				

4.3. Mae'r ffordd y caiff gwastraff ei reoli hefyd wedi newid yn sylweddol ers 2008, gyda chyfraddau ailgylchu a chompostio'n cynyddu'n sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi targedau ailgylchu statudol, ac mae Sir y Fflint wedi bodloni'r rhain. Er bod gostyngiad mewn cyfraddau ailgylchu yn Sir y Fflint rhwng 2016/17 a 2017/18, mae Sir y Fflint yn agos iawn i fodloni'r targed 2019/20 o 68%, ac ar y trywydd i fodloni targed 2024/25 o 70%, gweler Tabl 2 isod.

Tabl 2: Cyfraddau Ailgylchu

³ Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, Adolygiad Cyntaf

Ardal	2008/ 2009	2009/ 2010	2010/ 2011	2011/ 2012	2012/ 2013	2013/ 2014	2014/ 2015	2015/ 2016	2016/ 2017	2017/ 2018
Sir y Fflint	42.4	43.2	47.1	48.3	54.9	55.1	55.0	58.5	68.2	67.2
Gogledd Cymru	39.4	44.0	47.5	50.5	54.2	55.7	57.0	60.0	65.2	64.7
Cymru	-	-	-	-	52.3	54.3	56.2	60.2	63.8	62.7
Targedau Statudol					52	Amhert hnasol	Amhert hnasol	58	Amhert hnasol	Amhe rthnas ol

Ffynhonnell: StatsCymru

5. Darpariaeth ac Angen

- 5.1. Mae ystod o gyfleusterau rheoli gwastraff yn Sir y Fflint. Mae'r Cyngor yn gweithredu nifer o safleoedd amwynder dinesig a chyfleuster compostio, ac mae'r gweddill yn cael eu gweithredu gan gwmnïau preifat. Mae Atodiad 1 yn dangos y cyfleusterau trwyddedig yn Sir y Fflint, h.y. y safleoedd hynny sydd â thrwydded amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n eu caniatáu i reoli gwastraff. Mae nifer fawr o gyfleusterau o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru sy'n debygol o adlewyrchu natur drefol y Sir, a'i agosrwydd at y cytrefi yn y Gogledd Orllewin. Mae Atodiad 2 yn dangos manylion y gwastraff a reolir gan gyfleusterau presennol yn Sir y Fflint.
- 5.2. Mae gwybodaeth ar wastraff wedi'i gyfyngu ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol. Gall ffurflenni data gwastraff a ddarperir gan CNC roi syniad o'r swm o wastraff a gaiff ei gynhyrchu o fewn Sir y Fflint, ond rhaid bod yn ofalus wrth ei ddefnyddio gan nad yw'n cynnwys gwastraff sy'n cael ei anfon i gyfleusterau eithriedig, a gall danamcangyfrif y gwastraff a gaiff ei gynhyrchu oherwydd materion yn ymwneud â chodio a symud gwastraff drwy'r gorsafoedd trosglwyddo gwastraff. Er gwaethaf hynny, mae Atodiad 3 a 4 yn dangos, o'r 3,022,733 tonnall o wastraff a dderbyniwyd gan gyfleusterau yng Ngogledd Cymru, cafodd 1,121,175 tonnall ohono ei reoli gan Sir y Fflint. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd natur ddiwydiannol yr awdurdodau hyn o'u cymharu ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, a'u hagosrwydd at Loegr.
- 5.3. Mae nifer o ganiatâd cynllunio rheoli gwastraff wedi cael eu cymeradwyo o fewn y Sir ers mabwysiadu'r CDU yn 2011, fel y manylir o fewn Atodiad 5.
- 5.4. Nid oes angen dynodedig am isadeiledd adfer neu waredu pellach o fewn y Sir, oherwydd y datblygiad sydd wedi'i wneud o ran y Parc Adfer, a fydd yn rheoli gwastraff gweddilliol ar draws Awdurdodau Partner Gogledd Cymru, a'r cyfleuster treulio anaerobig a ddatblygwyd yn Rhualt yn Sir Ddinbych, sy'n rheoli gwastraff bwyd o Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi cael ei sicrhau ac yn y broses o gael ei weithredu ar gyfer safle tirlenwi yn Chwarel Parry. Felly, nid chanfuwyd unrhyw ddyraniadau strategol ar gyfer rheoli gwastraff o fewn y CDLI.

- 5.5. Yn ystod yr ymgynghoriad 'Galwad am Safleoedd' a gynhaliwyd rhwng 28 Chwefror 2014 i 30 Mai 2014, cafodd safle ar gyfer 'Mewnlwad Adfer Anadweithiol' yn Chwarel Ruby (cyfeirnod safle RHYD001) ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth. Mae Chwarel Ruby yn chwarel siâl sydd heb fod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd ac wedi adfywio'n naturiol. Er bod adolygiad cyfnodol wedi'i fethu a bydd angen nifer o gynlluniau er mwyn adfywio'r chwarel, mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer cloddio a gweithio mwynau tan 31 Rhagfyr 2021. Mae'r safle wedi'i leoli o fewn cefn gwlad agored ac wedi gweithredu fel chwarel o'r blaen. Mae rhan o'r safle yn cynnwys Safle Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol, coetir hynafol, safleoedd bywyd gwyllt Coed Lygan-Uchaf a Choed Nant Figillt, diddordeb archeolegol, wedi'i leoli mewn parth llifogydd C2, ac mae Adeiladau Rhestredig Gradd 2 o fewn 250m i'r safle sy'n gysylltiedig â'r hen weithfeydd brics a mwynfa.
- 5.6. Ar hyn o bryd, nid oes cefnogaeth polisi cenedlaethol ar gyfer adfer chwareli ar gyfer tirlenwi. Nod polisi gwastraff yw annog gwastraff i fyny'r hierarchaeth gwastraff gyda gwaredu ar waelod yr hierarchaeth. Felly, ni ystyrir yn briodol darparu dyraniad gwastraff penodol ar gyfer y math hwn o safle o fewn y CDLI.
- 5.7. Mae TAN21 yn ei gwneud yn glir bod gweithrediad yr hierarchaeth gwastraff yn dangos nad yw gwaredu gwastraff anadweithiol yn dderbyniol mewn mwyafrif o sefyllfaoedd, a heb gyfiawnhad eithriadol, dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer gwaredu gwastraff anadweithiol gael eu gwrthod.⁴ Pe gyflwynir caniatâd cynllunio ar gyfer mewnlwad adfer anadweithiol ar y safle hwn, mae polisiâu addas wedi cael eu drafftio o fewn y CDLI a all asesu cais o'r fath. Fodd bynnag, byddai rhaid dangos yr amgylchiadau eithriadol i roi cyfiawnhad ar gyfer gwaredu neu adfer gwastraff anadweithiol.
- 5.8. Yn ystod yr ymgynghoriad 'Galwad Pellach am Safleoedd' a gynhaliwyd yn 2017, derbyniwyd cais ar gyfer 'Creu Parth Gwastraff' ar safle chwarel presennol yn Chwarel Pinfold Lane a Chwarel Stoney Beach. Er bod caniatâd yn bodoli ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff ar y safle, mae'r ardal wedi cael ei amlygu o fewn Polisi EN21 sy'n rhestru safleoedd a ystyrir yn addas, mewn egwyddor, ar gyfer eu defnyddio i reoli gwastraff. O fewn darpariaeth bresennol yn y Sir a hyblygrwydd y polisiâu ar sail meini prawf yn y cynllun, ni ystyrir yn angenrheidiol darparu dyraniadau gwastraff penodol a manwl yn y CDLI.
- 5.9. Nid oes unrhyw safleoedd eraill wedi cael eu cynnig ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff yn ystod yr ymgynghoriadau amrywiol ar gyfer galwad am safleoedd.

6. Adolygiad o bolisiâu CDU

- 6.1. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) yn cynnwys nifer o bolisiâu sy'n ymwneud â gwastraff. Mae'r polisiâu isod wedi cael eu hadolygu a thrafodir eu perthnasedd i'r CDLI yn Nhabl 3 isod.

⁴ TAN21 paragraff 4.23 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/tan21-waste.pdf>

Tabl 3: Polisiâu Gwastraff y CDU

Polisi	Sylw	Argymhelliad ar gyfer y CDLI
EWP6 Ardaloedd Chwilio ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Newydd	Yn nodi ystod o ardaloedd lle byddai cyfleusterau gwastraff yn cael eu cefnogi. Mae'r rhestr yn cynnwys nifer o chwareli na ddefnyddir a safleoedd diwydiannol.	Dylid adolygu'r rhestr gan nad yw'r holl safleoedd yn briodol bellach.
EWP7 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy	Yn gofyn i'r angen gael ei ddangos yn erbyn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Yn gofyn i gyfleusterau drin a/neu waredu gwastraff gan ddefnyddio'r dewis amgylcheddol gorau sy'n ymarferol.	Nid yw'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn berthnasol bellach ac mae'r egwyddor dewis amgylcheddol gorau sy'n ymarferol wedi cael ei dynnu o TAN 21. Y canolbwynt yn y TAN diwygiedig yw sicrhau y gwneir penderfyniadau yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.
EWP8 Rheoli Datblygiadau a Gweithrediadau Gwastraff	Yn darparu ystod o feini prawf lle dylid asesu cynigion ar gyfer gwastraff yn eu herbyn.	Nid yw'n darparu maen prawf gofodol.
EWP9 Datblygiadau Newydd a Chyfleusterau Rheoli Gwastraff	Yn gofyn bod ceisiadau sy'n ymwneud â mwy na 2 hectar o dir angen gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.	Mae PCC yn gofyn i gyfleusterau a gofod digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff gael ei ymgorffori mewn dyluniad o unrhyw ddatblygiad.
EWP10 Aildefnyddio Gwastraff Datblygiadau	Yn gofyn am ystyriaeth o atal neu leihau gwastraff.	Mae PCC yn gofyn i ymdrechion atal gwastraff gael eu gwneud yn ystod y cam dylunio.
EWP11 Datblygu ar Safleoedd Tirlenwi neu Wrth eu Hymyl	Yn gofyn am ystyriaeth o risg y safle tirlenwi i'r datblygiad arfaethedig.	Mae PCC yn gofyn i awdurdodau cynllunio ystyried graddfa'r peryglon ar y wyneb ac islaw'r wyneb a all beri risg i iechyd a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau

		newydd yn cael eu cyflawni heb ddealltwriaeth o'r risg a sefydlogrwydd tir sy'n gysylltiedig â safleoedd tirlenwi.
--	--	--

7. Y Strategaeth a Ffeirir

7.1. Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn nodi'r polisi strategol ar gyfer rheoli gwastraff ym Mholisi Strategol STR15. Mae'r polisi yn nodi'r bwriad i sicrhau gostyngiad mewn gwastraff drwy'r system gynllunio ac i sicrhau bod gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, yn cael ei reoli'n gynaliadwy. Mae hefyd yn darparu canllawiau gofodol, sy'n arwain cyfleusterau gwastraff newydd tuag at safleoedd diwydiannol, wrth gydnabod bod angen i rai cyfleusterau gael eu lleoli tu allan i'r ffin ddatblygu.

Ffigwr 2:–Polisi Gwastraff Strategol

Strategic Policy STR 15
Waste Management

The LDP will facilitate the sustainable management of waste by:

- Securing opportunities to minimise the production of waste in all development and ensuring the sustainable management of waste once it has been produced;
- Supporting proposals for waste management which move the management of waste up the waste hierarchy;
- Supporting proposals which reduce the impacts of existing waste management on communities and the environment;
- Directing new waste management facilities towards existing and allocated industrial sites which are suitable for waste management facilities;
- Recognising that some types of waste facility may need to be located outside development boundaries;
- Protecting strategically important sites through the use of buffer zones where necessary; and
- Encouraging the co-location of heat producers and the development of heat networks through the identification of appropriate sites.

8. Polisiâu Gwastraff y CDLI

8.1. Mae'r polisiâu gwastraff arfaethedig o fewn y CDLI yn darparu'r polisiâu yn seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu datblygiad rheoli gwastraff ac i arwain datblygwyr at safleoedd a gaiff eu hystyried yn dderbyniol, mewn egwyddor, ar gyfer defnydd rheoli gwastraff. Mae'r polisiâu yn cynnwys:-

- EW19 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy
- EN20 Parth Clustogi Tirlenwi
- EN21 Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff
- EN22 Meini Prawf ar gyfer Cyfleusterau a Gweithrediadau Rheoli Gwastraff

8.2. Byddai EN19 yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff o fewn datblygiadau newydd, er mwyn rhwystro creu gwastraff lle bynnag bosibl, ac i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n gynaliadwy yn y lleoliad caiff ei greu, gan helpu Sir y Fflint i gyflawni'r targedau o fewn y Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol.

EW19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau newydd:

- a. ddangos sut fydd cynhyrchiant gwastraff yn cael ei ostwng yn ystod bob cam o'r datblygiad a sut all gwastraff sy'n codi, gael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.
- b. ddangos, lle bynnag mae hynny'n berthnasol, bod cyfleusterau a gofod digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunydd gwastraff wedi cael eu gwneud.

- 8.3. Bydd unrhyw wrthdaro posibl rhwng datblygiadau sensitif a'r safle Tirlenwi Chwarel Parry a gymeradwywyd, yn cael ei leihau drwy osod parth clustogi tirlenwi 250 metr o amgylch y safle Tirlenwi, fel y nodir yn EN20 ac a ddangosir ar y map cynigion. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell y dylai datblygiadau fod o leiaf 250 metr i ffwrdd o safleoedd tirlenwi.

EN20: EN20: Parth Clustogi Tirlenwi

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sensitif o fewn parth clustogi tirlenwi. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sensitif newydd o fewn 250m o safle Tirlenwi Chwarel Parry ond yn cael eu caniatáu, os gellir dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol o'r safle tirlenwi a ganiatawyd.

- 8.4. Pwrpas y polisi hwn yw darparu fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ac ymestyn ar Bolisi Strategol STR15. Yn unol â maen prawf iv Polisi Strategol STR15, mae'r polisi hwn yn cyfeirio datblygwyr at safleoedd lle gall weithgareddau rheoli gwastraff fod yn addas. Mae rhan gyntaf y Polisi yn darparu rhestr o safleoedd cyflogaeth /Prif Ardaloedd Cyflogaeth presennol neu ddyranedig a ystyrir yn addas, mewn egwyddor, i'w defnyddio ar gyfer rheoli gwastraff. Bydd y safleoedd ar y map cynigion.

EN21: Lleoliadau ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff

Bydd cynigion ar gyfer rheoli gwastraff, ac eithrio safleoedd tirlenwi a rhesgompostio agored yn cael eu caniatáu yn gyffredinol, ar safleoedd cyflogaeth presennol neu ddyranedig, ar gyfer defnydd B2, yn amodol ar fodloni meini prawf a fanylir ym Mholisi EN22. Mae'r safleoedd a ystyrir yn addas, mewn egwyddor, i'w defnyddio ar gyfer rheoli gwastraff yn cynnwys:

- Chwarel Parry, Alltami
- Ystâd Ddiwydiannol Ysguboriau Elwo, Alltami
- Chwarel Pinfold Lane/Chwarel Stoney Beach, Alltami
- Depo Alltami, Alltami
- Ystâd Ddiwydiannol Manor, Bagillt
- Ystâd Ddiwydiannol Melin Brychdyn, Brychdyn
- Ystâd Ddiwydiannol Spencer
- Ystâd Ddiwydiannol Catheralls ac Ystâd Ddiwydiannol Pinfold, Bwcle
- Safle'r Hen Orsaf Bŵer, De Pont Sir y Fflint, Cei Connah
- Dock Road, Cei Connah
- Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy (Ac Eithrio Porth y Gogledd a DARA)
- Parc Busnes Maes Glas, Maes Glas
- Dociau Mostyn, Mostyn
- Gorllewin Ffordd Caer, Queensferry
- Ystâd Ddiwydiannol Pentre, Pentre, Queensferry
- Ystâd Ddiwydiannol Queensferry, Pentre, Queensferry

- Parc Busnes Glendale, Sandycroft, Queensferry
- Ystâd Ddiwydiannol River Lane, Saltney
- Prince William Avenue, Sandycroft

Gall cynigion ar gyfer rheoli gwastraff tu allan i dir sydd heb eu rhestru uchod i'w defnyddio ar gyfer rheoli gwastraff, neu wedi'u dynodi ar gyfer defnydd B2, neu dir o fewn Dyranied Cyflogaeth neu Prif Ardal Cyflogaeth, gael caniatâd o fewn ffiniau anheddiad, os:

- Na ellir lleoli'r datblygiad arfaethedig ar brif safleoedd cyflogaeth, tir wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth neu o fewn ffiniau datblygu, oherwydd graddfa neu natur y datblygiad arfaethedig, neu
- Bwriad y cynnig yw rheoli gwastraff sy'n cael ei greu'n gyfan gwbl ar y safle, neu
- Mae angen dynodedig ar gyfer y math o gyfleuster rheoli gwastraff dan sylw ac nid oes unrhyw safleoedd dyranedig o fewn pellter rhesymol, gan ystyried dalgylch y gwastraff, a
- Mae'r safle tu allan i'r AHNE; a
- Mae yna ddarpariaeth ar gyfer adfer y caniatâd defnydd sydd wedi dod i ben.

Bydd cynigion tu allan i ffiniau aneddiadau ond yn cael eu caniatáu os gellir dangos nad oes unrhyw safleoedd eraill ar gael, neu sy'n addas.

Bydd cynigion ar gyfer trin gwastraff bioddiddiadwy drwy gompostio, gan gynnwys treulio anaerobig a chompostio mewn cynhwysydd yn dderbyniol yn gyffredinol, ar safleoedd o fewn defnydd amaethyddol presennol, er mwyn delio â gwastraff bioddiddiadwy sy'n codi o'r defnydd hwnnw, neu ar safleoedd tu allan i'r AHNE.

8.5. Mae asesiad wedi'i gynnal i asesu holl safleoedd a restrir ym Mholisi EWP6 y CDU, holl ddyraniadau cyflogaeth PE1 (Atodiad 6), a holl Brif Ardaloedd Cyflogaeth PE2 (Atodiad 7) o ran eu haddasrwydd ar gyfer rheoli gwastraff. Mae asesiad codio lliw goleuadau traffig wedi cael ei gyflawni ar bob safle i ddangos pa safleoedd a fydd yn addas mewn egwyddor; coch yn annhebygol o fod yn addas, oren o bosibl yn addas, a gwyrdd yn addas ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff. Roedd ystyriaethau ar gyfer pob safle yn cynnwys, os oedd y safle yn safle tir llwyd/gwyrdd, o fewn gorlifdir a'i beidio, os oedd defnydd gwastraff yn gweithredu o'r safle a natur y parc busnes/safle diwydiannol presennol.

8.6. Er y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli gweithrediad cyfleusterau rheoli gwastraff drwy drefn trwyddedu amgylcheddol, ni fydd holl weithrediadau gwastraff yn cael eu rheoli drwy'r system drwyddedu, gan fod rhai gweithrediadau wedi'u heithrio. Felly, yn ystod y cam cais cynllunio, rhaid i geisiadau ddangos bod yn bosibl rheoli gweithrediadau yn ddigonol gan ystyried lleoliad y cyfleuster arfaethedig a'i agosrwydd at dderbynyddion sensitif. Byddai ceisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi EN22 a pholisïau eraill o fewn y CDLI er mwyn sicrhau eu bod yn addas.

EN22: Meini Prawf ar gyfer Cyfleusterau a Gweithrediadau Rheoli Gwastraff

Bydd cynigion ar gyfer rheoli gwastraff yn cael eu caniatáu, os:

- Fydd y cynnig yn symud y rheolaeth o wastraff i fyny'r hierarchaeth gwastraff; neu
- Bod angen dynodedig am y math o gyfleuster ar lefel rhanbarthol, yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 21; a
- Ni fydd unrhyw effeithiau gweledol andwyol, sylweddol; a
- Gall unrhyw effeithiau gweledol eu lliniaru'n foddhaol drwy dirlunio a storio gwastraff yn briodol; a
- Chydymffurfio gyda pholisïau eraill yn y cynllun.

Appendix 1: Permitted Waste Facilities in Flintshire: Source NRW 2018

Permit Number	Site Name	Town	Operator	Category
TB3590HJ	Parrys Quarry	Mold	Mold Investments Limited	C&D MRF
ZB3793HN	Dragon Works	Chester	City Metals (U K) Limited	End of life vehicle facility
YP3394FT	Road Runners	Chester	Road Runners	End of life vehicle facility
XP3694FN	The Old Transport Yard	Deeside	Mr M R Jackson	End of life vehicle facility
WP3394FG	Copart U K - Prince William Avenue	Chester	Copart U K Ltd	End of life vehicle facility
BP3493VS	Queensferry Car Breakers	Queensferry	Queensferry Car Breakers Limited	End of life vehicle facility
HP3794FP	Deeside Motorcycles	Connahs Quay	Stewart Williams	End of life vehicle facility
CP3794FR	Bagillt Car Spares	Bagillt	Bagillt Car Spares	End of life vehicle facility
YP3194FU	Flintshire Commercial Dismantlers	Holywell	Flintshire Commercial Dismantlers	End of life vehicle facility
ZP3694FV	Flintspeed Car & Commercial Dismantlers	Holywell	Frank Sheratt	End of life vehicle facility
BP3390VA	Standard Landfill Site	Buckley	Flintshire County Council	Hazardous Waste Landfill Site
WP3694FZ	Safetykleen Broughton	Deeside	Safety Kleen U K Ltd	Hazardous Waste Transfer Stations (including treatment)
BP3294VP	Mold Recycling Park	Mold	Flintshire County Council	Household Waste Recycling Centres
BP3291EB	Globe Way Recycling Park	Buckley	Flintshire County Council	Household Waste Recycling Centres
XB3597TM	Sandycroft Recycling Park	Deeside	Flintshire County Council	Household Waste Recycling Centres
BP3295VS	Queensferry Recycling Park	Deeside	Flintshire County Council	Household Waste Recycling Centres
BP3299VH	Dock Road Recycling Park	Deeside	Flintshire County Council	Household Waste Recycling Centres

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd 2015-2030
Papur Cefndir 5: Gwastraff – Medi 2019

BP3297EZ	Flint Recycling Park	Flint	Flintshire County Council	Household Waste Recycling Centres
DP3493LA	A Skip 2 U Ltd	Mold	A Skip 2 U Ltd	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations
AP3694FE	Old Bridge Inn	Mold	G Scarfo & Son	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
YP3894FR	Standard Road Transfer Station	Buckley	Flintshire County Council	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
JP3994FX	West Penine Recycling Transfer Station	Buckley	W P R (U K) Ltd	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
VP3794FN	A S H Bretton Recycling Centre	Bretton	Alan's Skip Hire Limited	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
BP3391EL	Brookhill Transfer Station	Buckley	Flintshire County Council	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
BP3797SZ	Ewloe Waste Transfer Station	Mold	Thornccliffe Building Supplies Ltd	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
WB3493HU	Alltami Depot	Alltami	Flintshire County Council	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
FP3194FH	Queensferry Depot	Sandycroft	S P Power Systems Ltd	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
CB3233AV	T J's Skip Hire Ltd	Deeside	T J's Skip Hire Ltd	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd 2015-2030
Papur Cefndir 5: Gwastraff – Medi 2019

JB3932RM	Paperback Collection & Recycling Ltd	Deeside	Paperback Collection & Recycling Limited	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
DB3332RH	C T Skip Hire	Deeside	C T Skip Hire	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
FP3198SG	Materials Recycling And Recovery Facility	Deeside	Orchid Shotton Ltd	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
TB3397TD	Roadrunner Waste Ltd	Bagillt	G. T Roberts & Son Limited	Household, Commercial and Industrial Transfer Stations (including treatment)
CB3593HF	Unit 103		Parry And Evans Limited	I&C MRF
TP3894FN	Waen Farm	Mold	Edward Stephens	Inert Landfill Site
LP3394FD	Cefn Mawr Quarry Landfill	Mold	Castle Cement Padeswood Ltd	Inert Landfill Site
HP3394FV	Bagillt Landfill Site	Bagillt	Veolia Es Uk Ltd	Inert Landfill Site
WP3594FF	S P A Davies & Sons	Mold	S P A & J L Davies	Metal Recycling Site
CP3494FZ	Spencer Ind Est Scrapyard	Buckley	Spencer Industrial (North Wales) Ltd	Metal Recycling Site
EP3694FR	P Dobbins Chester Ltd	Saltney	P Dobbins Chester Limited	Metal Recycling Site
GP3494FW	J Chadwicks Scrapyard	Deeside	S J Chadwick	Metal Recycling Site
WP3194FL	Chadwicks Metal Processing Facility	Deeside	Chadwicks	Metal Recycling Site
GP3894FB	Trident Metals	Deeside	Trident Commercial Holdings Limited	Metal Recycling Site
HP3594FD	Flintshire Commercial Dismantlers	Holywell	Flintshire Commercial Dismantlers	Metal Recycling Site
GP3294FZ	S J Chadwicks Greenfield	Greenfield	J Chadwicks	Metal Recycling Site
ZP3994FJ	Delyn Metals Ltd	Holywell	Delyn Metals Ltd	Metal Recycling Site
NP3894FK	Point Of Ayr Treatment Facility	Ffynnongroew	Delyn Metals Ltd	Metal Recycling Site
FB3497TK	Fron Haul Quarry	Mold	Breedon Southern Limited	Mining and extractive waste facility

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd 2015-2030
Papur Cefndir 5: Gwastraff – Medi 2019

SP3894FZ	Maes Y Grug Landfill	Mold	B Griffiths	Non-Hazardous Landfill Site
BP3894FD	Sea View Farm 1	Deeside	D Morgan Plc	Non-Hazardous Landfill Site
SP3394FL	Sea View Farm 2	Deeside	D Morgan Plc	Non-Hazardous Landfill Site
BP3298VK	Greenfield Recycling Park	Greenfield	Flintshire County Council	Open Windrow Composting; Household Waste Recycling Centres
KP3294FW	P H S North Wales	Buckley	Personnel Hygiene Services Ltd	Transfer of clinical waste
BP3594FN	Padeswood Landfill	Mold	Castle Cement Padeswood Ltd	Unknown
JB3034RN	Cambrian Quarry	Gwernymynydd	Ash Resource Management (Cambrian Quarry) Ltd	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
FB3734RP	P M Dromgoole & Sons Agricultural Ltd	Nr Mold	P M Dromgoole & Sons Agricultural Ltd	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
MB3733RU	Alltami Soil & Aggregate Recycling Facility	Mold	Brock Plc	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
FB3735AT	Cambrian Concrete	Near Mold	Lloyd Holdings (North West) Ltd	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
UB3697TL	Glasfryn Yard		Gary Catton Haulage Ltd	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
KB3433RY	Alan's Skip Hire Ltd	Deeside	Alan's Skip Hire Ltd	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
FB3897TV	Maes Mynan Quarry	Mold	Breedon Southern Limited	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction
DB3435RA	Maes Mynan Quarry	Mold	Lloyds Quarries Limited	Use/treatment of inert waste for land reclamation or construction

**Appendix 2: Waste Managed by Waste Facilities in Flintshire in 2017-18:
Source NRW (tonnes)**

Facility Type	Total		Total
CA Site	35958	Inert Waste Transfer	18435
